

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Pengorof, Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 26 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 6 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Pengorof, rhan o Bractis Grŵp Ystradgynlais, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 26 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, adolygydd cymheiriaid practis cyffredinol ac adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom ryngweithio proffesiynol a chwrtais rhwng y staff a'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Roedd y practis yn hygyrch ar gyfer pawb ac roedd prosesau da ar waith ar gyfer brysbennu cleifion. Yn gyffredinol, roedd yr adborth a gawsom gan y cleifion drwy ein holiaduron AGIC yn gadarnhaol.

Dylai'r practis sicrhau bod agweddau ar ofynion iaith a chyfathrebu yn cael eu cryfhau er mwyn hybu profiad y claf ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr eu cofnodi bob amser
- Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gyfarwydd â darpariaeth y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn ei roi ar waith
- Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi'n rheolaidd ar gofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n ymatebol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd digon o wybodaeth hybu iechyd i'w gweld, a oedd yn gysylltiedig â chlinigau rheolaidd i gefnogi llesiant y cleifion
- Roedd yr adborth a gawsom gan y cleifion yn holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan
- Roedd system drefnus ar waith ar gyfer cynnal ymweliadau â chartrefi a gofal cartref.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amrywiaeth o brosesau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn unol â lefel eu hanghenion. Roedd yr amgylchedd i'w weld yn lân ac roedd trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau a sicrhau bod y practis yn ymwybodol o'r canllawiau clinigol diweddaraf.

Dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion imiwneiddio'r staff eu cynnal er mwyn hybu llesiant y staff yn llawn ac er bod y broses o gadw cofnodion yn cael ei chynnal i safon dda yn gyffredinol, gellid cryfhau rhai agweddau ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal cofnod a chofnodlyfr adolygu o frechiadau'r staff
- Rhaid i'r practis sicrhau bod yr agweddau hyn ar gadw cofnodion yn cael eu cryfhau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn lân ac yn drefnus iawn ym mhob ardal
- Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau da ar waith, gan gynnwys gwiriadau o'r cyfarpar meddygol brys
- Roedd trefniadau da ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am y canllawiau clinigol diweddaraf

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei drefnu a'i strwythuro'n dda, gyda chyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo'n dda i'r staff clinigol. Gwelwyd tystiolaeth bod cyfleoedd hyfforddiant a datblygu da ymysg rhai grwpiau staff a bod arfarniadau wedi'u cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff i safon dda.

Er y gwelsom enghreifftiau o weithgarwch archwilio cadarnhaol, dylai'r practis sicrhau y caiff cynllun archwilio lleol ei greu yn seiliedig ar flaenoriaethau clinigol ac anghlinigol y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis greu cynllun archwilio lleol ffurfiol yn seiliedig ar flaenoriaethau archwilio clinigol ac anghlinigol y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd dyletswyddau a chyfrifoldebau yn cael eu dirprwyo'n dda, yn enwedig i'r meddygon teulu
- Roedd y practis yn ymateb i gwynion gan gleifion mewn ffordd gynhwysfawr
- Roedd darpariaeth hyfforddiant clinigol dda yn y practis, gyda chyfraddau cadw staff da ar ôl iddynt gwblhau hyfforddiant.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom 26 o holiaduron wedi'u cwblhau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar gyfer pob maes. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn dda iawn (12/24) neu'n dda (10/24). Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r meddygon, y nyrsys a staff y dderbynfa bob amser yn gymwynasgar iawn"

"Meddyg teulu ardderchog, rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir"

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Cael gwybod am y ffyrdd diweddaraf y gallwn ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael e.e. peidio â chymryd yn ganiataol y gallwn gael gafael ar wybodaeth dechnegol."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd cyngor, ymgyrchoedd a deunyddiau hybu iechyd i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth iechyd a oedd yn gysylltiedig â meysydd amrywiol, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu ac iechyd meddwl.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cyngor hybu iechyd a oedd ar gael i'r cleifion yn gysylltiedig â chlinigau rheolaidd, gan gynnwys clinig wythnosol ar roi'r gorau i smygu a'r broses o ailgyflwyno sesiynau elusen iechyd meddwl Mind yn y practis yn wythnosol.

Roedd sawl clinig yn darparu gwasanaethau sgrinio a sesiynau rheoli iechyd parhaus ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau cronig, megis diabetes ac asthma. Roedd y clinigau hyn yn cael eu hategu gan archwiliadau iechyd blynyddol.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom ryngweithio proffesiynol a chwrtais rhwng y staff a'r cleifion bob amser. Roedd digon o le yn yr ardal aros a oedd yn galluogi'r cleifion a'r staff i gynnal sgysriau yn y dderbynfa gyda rhywfaint o breifatrwydd. Dywedodd y staff wrthym y gellid defnyddio ystafell ochr ar gais hefyd.

Roedd galwadau ffôn ar gyfer apwyntiadau a brysbennu yn cael eu cynnal mewn swyddfa breifat i ffwrdd o'r ardaloedd cyhoeddus i gleifion. Roedd yn bosibl i gleifion a oedd yn cyrraedd y feddygfa heb apwyntiad gwblhau ffurflen i'w rhoi i staff y dderbynfa er mwyn osgoi'r angen i esbonio eu rhesymau dros fynychu'r practis yn agos at gleifion eraill.

Wrth i ni gael ein tywys o amgylch y practis, gwelsom fod drysau'r clinig a'r feddygfa ar gau bob amser.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, roedd y cleifion yn gadarnhaol am y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd oddeutu chwarter o'r cleifion (8/28) yn anghytuno bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu cynnal bob amser.

Roedd y cleifion yn cael gwybod ar lafar a thrwy ddarllen posteri bod croeso iddynt gael hebryngwr yn bresennol. Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant mewnol ar sut i hebrwng cleifion yn briodol a bod staff benywaidd a gwrywaidd ar gael. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd cydsyniad ar lafar a'r cynnig o hebryngwr yn cael ei gofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion bob amser.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr ei gofnodi yn nodiadau meddygol y cleifion bob amser yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o amser i egluro eu hanghenion iechyd (19/23) a dywedwyd eu bod yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt (24/25). Dywedodd bron pob un o'r cleifion a atebodd fod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddynt ac wedi ateb eu cwestiynau (24/25) ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd (23/25).

Amserol

Gofal Amserol

Mae'r practis yn cynnig apwyntiadau ar y diwrnod drwy broses brysbennu dros y ffôn. Yna, bydd yr ymarferydd gofal iechyd mwyaf perthnasol yn cysylltu â'r cleifion yn unol â'u pryderon clinigol neu symptomau. Gallai hyn gynnwys meddyg

teulu, nyrsys y practis neu fferyllydd. Roedd amser yn cael ei neilltuo bob diwrnod er mwyn i'r meddygon teulu adolygu'r rhestr frysbenneu ac ar gyfer ymdrin ag ymholiadau rheolaidd neu frys gan aelod o staff y practis sydd wedi'i hyfforddi a gymrodd yr alwad.

Roedd proses trefnu apwyntiadau ar-lein a system ffonio'n ôl ar waith ar gyfer amrywiaeth o faterion nad oeddent yn rhai brys, gan gynnwys rheoli cyflyrau cronig, adolygiadau meddyginiaeth, canlyniadau profion a cheisiadau presgripsiwn rheolaidd.

Nodwyd gennym fod prosesau da ar waith ar gyfer brysbennu ymweliadau â chartrefi a chartrefi gofal. Roedd yr uwch-ymarferydd nyrsio yn rhoi mewnbwn dynodedig ac roedd y meddygon teulu yn cael eu dirprwyo / arwain yn dda er mwyn sicrhau system drefnus, gyda goruchwyliaeth glinigol briodol.

Roedd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC yn fodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd iddynt (25/25). Teimlai'r rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys (18/24), a dywedodd dwy ran o dair o'r cleifion a ymatebodd y gallent gael apwyntiadau arferol pan oedd eu hangen arnynt (15/22).

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog ar gael i'r cleifion. Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn y practis, ond nid oedd hyn yn amlwg ar unwaith i'r cleifion, er enghraifft drwy ddefnyddio bathodynau iaith Gwaith.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gyfarwydd â darpariaeth y 'Cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg a'i rhoi ar waith.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn gyfarwydd â gwasanaethau megis y llinell iaith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi yn eu cofnodion meddygol yn rheolaidd.

Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi'n rheolaidd yng nghofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n ymatebol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd amgylchedd y practis i'w weld yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ym mhob ardal i'r cleifion a'r staff.

Roedd y practis yn hygyrch, gyda lleoedd parcio dynodedig ar gyfer pobl anabl a mynediad gwastad i'r practis o'r maes parcio. Roedd pob un o'r meddygfeydd wedi'u lleoli ar lawr gwaelod y practis a dywedodd y staff wrthym y byddent yn helpu'r cleifion yn ôl yr angen.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith a oedd wedi'i brofi a'i ddiweddarau mewn ymateb i ddigwyddiad diweddar.

Pe byddai angen cymorth ar frys yn y practis, roedd system ar waith i alw am hyn o bob cyfrifiadur. Roedd y staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r system hon pe byddai ei hangen.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd y practis i'w weld yn lân ac roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod pob ardal o'r practis yn cael ei glanhau o leiaf bob dydd ac i safon gyson.

Roedd gwasanaethau glanhau yn cael eu darparu gan contractiwr allanol yn unol ag amserlenni glanhau a bennir ac roedd y staff nyrsio yn gyfrifol am ddihalogi rhannau o'r clinigau.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau priodol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau. Penodwyd nyrs arweiniol y practis yn arweinydd atal a rheoli heintiau ac roedd yn wybodus ynghylch gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd yn berthnasol i'r practis.

Roedd digon o fannau golchi dwylo a hylif diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys yn y meddygfeydd ac ardaloedd y clinigau. Cadarnhaodd y staff bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael.

Roedd system addas ar waith i reoli gwastraff clinigol. Roedd y gwastraff yn cael ei gadw ar wahân a'i storio mewn biniau dan glo er mwyn i gontractiwr allanol ei gasglu. Roedd yr archwiliadau ar wastraff wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Roedd contract gwasanaeth ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei waredu'n briodol.

Gwelsom gofnodion anghyson mewn perthynas â brechiadau'r staff rhag Hepatitis B. Cadarnhaodd y practis fod profion imiwnedd wedi'u cynnal a, phan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd canlyniadau a brechiadau atgyfnerthu yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal cofnod a chofnodlyfr adolygu o frechiadau'r staff.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd amrywiaeth o ddulliau ar waith er mwyn i gleifion wneud cais am bresgripsiynau rheolaidd. Roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan brosesau addas ar gyfer adolygu ac awdurdodi presgripsiynau gan staff hyffroddedig y practis. Roedd gweithgarwch archwilio wedi'i gynnal er mwyn sicrhau bod y prosesau hyn yn effeithiol.

Gwnaethom gadarnhau bod padiau presgripsiwn, fel y rhai a ddefnyddir yn ystod ymweliadau â chartrefi, yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwelwyd bod meddyginiaethau sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu storio'n briodol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n gywir, ar y tymheredd perthnasol, ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi er mwyn sicrhau bod yr oergelloedd clinigol yn gweithio'n effeithiol.

Cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu storio ar y safle.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i'r staff a'r practis eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd y polisiâu hyn yn gysylltiedig â phroses Ddiogelu Cymru Gyfan ac roedd y staff yn ymwybodol ohoni.

Gwnaethom gadarnhau bod arweinydd diogelu clinigol ar waith yn y practis a'i fod wedi cwblhau hyfforddiant hyd at y lefel ofynnol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff y practis a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o anghenion y cleifion a rhoddwyd enghreifftiau lle yr uwchgyfeiriwyd pryderon i'r staff clinigol.

Yn dilyn adolygiad o gofnodion meddygol y cleifion, gwnaethom gadarnhau bod marcwyr wedi'u defnyddio ar gyfer tynnu sylw'r staff at gleifion penodol lle roedd pryderon diogelu presennol neu bryderon amdanynt yn y gorffennol.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod pob dyfais a chyfarpar meddygol yn effeithiol ac mewn cyflwr da. Roedd y nyrs arwain yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwyllo'r cyfarpar hwn ac roedd contract cynnal a chadw parhaus ar waith gyda darparwr gwasanaeth.

Gwelsom fod y pecyn a'r cyffuriau brys yn gywir, roedd yr holl eitemau yn gyfredol ac roedd gwiriadau wedi'u cynnal gan y staff nyrsio yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod ar gael bob amser a'u bod yn effeithiol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff clinigol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd dysgu dros ginio gydag aelod o dîm y meddygon teulu sy'n arwain y broses o roi canllawiau clinigol ar waith, megis canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Gwnaethom nodi nad oedd y practis yn defnyddio system Datix ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ond gwnaethom gadarnhau bod tîm gofal sylfaenol y bwrdd iechyd lleol wedi cael gwybod amdanynt yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu rhannu â'r staff dros e-bost neu ar bapur. Gwelsom dystiolaeth bod eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd clinigol misol a fyddai'n cynnwys unrhyw rybuddion.

Roedd timau dynodedig yr oedd eu rolau yn cynnwys rheoli'r broses atgyfeirio, gan gynnwys atgyfeiriadau brys at y system gofal eilaidd berthnasol. Nododd y staff y gallai'r broses hon fod yn gymhleth am fod yr ardal yn agos at dri bwrdd iechyd lleol. Er hyn, dywedodd y practis wrthym nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw bryderon penodol a oedd yn effeithio ar eu cleifion, ar wahân i ôl-groniadau ar restrau aros yn genedlaethol.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod meddygol electronig y cleifion. Roedd cynnwys clinigol y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu o ansawdd da. Roedd hyn yn cynnwys eglurder o ran tystiolaeth a rhesymau dros benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â gofal cleifion. Roedd y cofnodion hefyd yn gyfredol ac yn ddealladwy.

Gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w gwella er mwyn hybu arferion da o ran cadw cofnodion yn llawn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr angen i gofnodi cydsyniad a chynnig gwasanaeth hebryngwr yn ystod archwiliadau personol
- Yr angen i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei chysylltu â diagnosis yn gyson a bod y rhesymau dros roi'r gorau i'w chymryd yn cael eu cofnodi
- Yr angen i sicrhau y caiff codau READ eu defnyddio'n gyson.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr agweddau hyn ar gadw cofnodion yn cael eu cryfhau.

Gwelwyd bod pob un o gofnodion meddygol y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod atynt.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd gan y staff clinigol rolau a chyfrifoldebau manwl iawn a oedd yn cynnwys dyletswyddau clinigol, megis diogelu, neu faterion mewn perthynas â'r broses o redeg y practis. Roedd rheolwr newydd wedi'i benodi ar gyfer y practis ac roedd y practis wedi darparu cyfnod pontio hir er mwyn helpu i sicrhau bod y broses o drosglwyddo yn gadarn a hwylus.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal ar bob lefel yn ogystal â chyfarfodydd ar gyfer y practis cyfan. Roedd y cyfarfodydd hyn i'w gweld yn rhai cynhwysfawr, ac roedd y cofnodion ar gael i'r staff eu darllen os nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Cawsom wybodaeth a oedd yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r lefelau gofynnol o hyfforddiant gorfodol. Nodwyd rhai bylchau mewn hyfforddiant dadebru wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, roedd y clinig wedi blaenoriaethu staff llawn amser a staff clinigol a oedd wedi cwblhau'r cwrs ar adeg yr arolygiad er mwyn sicrhau bod y risg hon yn cael ei lliniaru, wrth i fwy o gyrsiau ddod ar gael.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. Roedd y rhain i'w gweld yn gynhwysfawr ac yn cynnwys anghenion hyfforddiant fel rhan o'r broses hon.

Gwelsom fod y practis yn derbyn nifer o feddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr yn rheolaidd. Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhai o'r staff dan hyfforddiant wedi dewis dod yn aelodau parhaol o staff y practis yn dilyn eu cyfnod yn hyfforddi.

Nodwyd gennym hefyd fod cyfle i'r staff ddatblygu ac uwchsgilio, a daeth hyn yn amlwg o weld cynorthwydd gofal iechyd yn ymgymryd â hyfforddiant gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn dod yn nyrs practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull gwyno ffurfiol, a oedd yn cyd-fynd â'r broses Gweithio i Wella.

Gwelsom dystiolaeth bod yr adborth yn cael ei hadolygu mewn cyfarfodydd tîm ac roedd bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' i'w weld yn y dderbynfa a oedd yn amlinellu'r camau gweithredu yr oedd y practis wedi'u cymryd.

Gwelsom sampl o gwynion ffurfiol, a oedd wedi cael eu cydnabod o fewn y cyfnod priodol ac yr oedd y practis wedi ymateb iddynt mewn ffordd gynhwysfawr. Dywedodd y practis wrthym fod eu hamseroedd ymateb yn llawn i gwynion wedi cynyddu oherwydd oedi o ran y cynghorwyr cyfreithiol. Hysbyswyd y practis y dylid monitro hyn yn y dyfodol.

Ar gyfer staff y practis, tynnodd y tîm rheoli ein sylw at ddull drws agored a bod croeso i'r staff roi adborth neu fynegi pryderon yn unigol neu yn ystod cyfarfodydd tîm. Nodwyd gennym fod polisi a gweithdrefn siarad yn agored ar waith mewn achosion lle na ellid datrys pryderon yn anffurfiol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom nodi tystiolaeth o weithgarwch archwilio yn y practis ar lefel clwstwr cyfan a gwelsom dystiolaeth o welliannau i brosesau clinigol a gweinyddol mewn ymateb i'r archwiliadau neu wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd llawer o weithgarwch archwilio wedi mynd rhagddo ers y pandemig, ond bod cynlluniau ar waith i ailgyflwyno'r rhain.

Dylai'r practis greu cynllun archwilio lleol ffurfiol yn seiliedig ar flaenoriaethau archwilio clinigol ac anghlinigol y practis.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth da gyda'r clwstwr lleol. Roedd hyn yn cynnwys croesawu staff fferylliaeth a oedd yn cael eu cyflogi gan y clwstwr ac yn gweithio ym mhob rhan ohono. Dangoswyd tystiolaeth o

weithgarwch archwilio a'r gwelliannau a roddir ar waith o ganlyniad i'r archwiliadau hyn.

Nododd y staff fod ganddynt gyberthnasau cadarnhaol â chartrefi gofal lleol ac roedd staff dynodedig, gyda mynediad uniongyrchol at system ffôn, a nyrs practis a meddyg teulu yn neilltuo amser ar gyfer cefnogi'r cartrefi hyn. Disgrifiodd y staff ddigwyddiad diweddar lle y rhannwyd gwersi a ddysgwyd rhwng y sefydliadau.

Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda'r ysbyty cymunedol lleol, er enghraifft drwy gwblhau rowndiau wardiau a chymryd rhan mewn wardiau rhithwir a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am eu harferion gwaith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Pengorof, Grŵp Ystradgynlais

Dyddiad yr arolygiad: 26 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Risg i urddas y cleifion	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad ar lafar i archwiliadau personol a'r cynnig o hebryngwr ei gofnodi yn nodiadau meddygol y cleifion bob amser yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	I'w drafod/gofnodi yn ystod y cyfarfod clinigol misol nesaf. Memo i gael ei anfon at bob aelod clinigol o staff.	Jo-Ann Merrick	1 mis
Risg i ddewis iaith y cleifion	Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gyfarwydd â darpariaeth y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg a'i rhoi ar waith.	Prynu bathodynau siaradwr Cymraeg ar gyfer aelodau o'r staff, a'u gwisgo. Trafod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn ystod y sesiynau amser dysgu gwarchodedig ym mis Medi 2023	Hayley Lewis-Rees/Jo-Ann Merrick	1 mis

Risg i anghenion cyfathrebu'r cleifion a /neu ddewis iaith	Dylai'r practis sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu eu cofnodi'n rheolaidd ar gofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n ymatebol. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal cofnod a chofnodlyfr adolygu o imiwneiddiadau'r staff.	Mae'r templed brysbennu wedi'i ddiweddarau i ofyn am ddewis iaith y cleifion - diweddarwyd y cofnodion meddygol wedi hynny Adolygu cofnodlyfr imiwneiddiadau'r staff a'i ddiweddarau	Jordan Best/Hayley Lewis-Rees Jordan Best	1 mis 1 mis
Risg i lesiant y staff				
Risg i ddiogelwch y cleifion a / neu barhad gofal	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr agweddau hyn ar gadw cofnodion yn cael eu cryfhau.	Anfon memo at bob aelod o'r staff clinigol er mwyn sicrhau bod y cynnig o hebryngwyr yn cael ei gofnodi a bydd y mater yn cael ei godi yn ystod sesiynau amser dysgu gwarchodedig. Mae cyfarwyddiadau ar sut i gofnodi'r broses o gysylltu diagnosis a nodi'r rhesymau dros roi'r gorau i gymryd meddyginiaeth wedi'u llunio a'u hanfon at bob aelod perthnasol o'r staff. Bydd sicrhau y defnyddir codau	Jo-Anne Merrick/Meddygon teulu	Parhaus

		READ yn gyson yn cael ei godi yn ystod sesiynau amser dysgu gwarchoddedig a bydd y mater yn cael ei ddogfennu, ond bydd hefyd yn cael ei anfon fel memo at bob aelod o'r staff.		
Risg i wella gwasanaeth a gofal effeithiol a /neu'r gwasanaeth a ddarperir.	Dylai'r practis greu cynllun archwilio lleol ffurfiol yn seiliedig ar flaenoriaethau archwilio clinigol ac anghlinigol y practis.	Creu cynllun 12 mis er mwyn cynnal archwiliadau clinigol/anghlinigol	Jo-Ann Merrick/Meddygon teulu	1 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jo-Ann Merrick

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 8 Medi 2023